Y Pwyllgor Cyllid

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

At Ymgyngoreion

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

9 Hydref 2012

**Cais am dystiolaeth - Buddsoddi i Arbed**

Mae'r Pwyllgor Cyllid yn galw am wybodaeth i helpu i lywio ein hymchwiliad i Gronfa Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cymru. Mae'r Gronfa ar gael i sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus a gaiff eu hariannu gan Lywodraeth Cymru, i gefnogi eu prosiectau gwella strategol sy'n arwain at arbedion effeithlonrwydd sylweddol, i ryddhau arian parod, ac i sicrhau bod gwasanaethau effeithiol sy'n canolbwyntio ar y dinesydd yn cael eu darparu.

**Cylch gorchwyl yr ymchwiliad**

Diben yr ymchwiliad hwn yw ystyried pa mor effeithiol fu'r Gronfa Buddsoddi i Arbed hyd yma. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn gwybod a yw'r gronfa'n gweithio, ac os felly, a yw prosiectau'n cael eu copïo ar draws y sector perthnasol?

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu eich sylwadau ar unrhyw un, neu'r cyfan o'r pwyntiau a ganlyn:

- Pa effaith a gaiff y gronfa Buddsoddi i Arbed, a yw'n cyflawni ei dibenion, i "helpu sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus, trwy sicrhau bod y gwaith o newid eu ffordd o ddarparu gwasanaethau yn mynd rhagddo mewn modd effeithlon, effeithiol a chynaliadwy"?
- I ba raddau y manteisiwyd ar y gronfa?
- Pa wersi a ddysgwyd, ac a oes modd i enghreifftiau o ymarfer da gael eu rhannu a'u hymestyn yn ehangach drwy'r sector cyhoeddus?
- Pa arbedion a wnaethpwyd o ganlyniad i ddyfarnu rhoddion o'r gronfa?

Ffôn / Tel: 029 2089 8120
E-bost / Email: PwyllgorIGC@cymru.gov.uk

- A oes unrhyw rwystrau i fanteisio ar y gronfa h.y. a oes unrhyw elfennau o broses y gronfa Buddsoddi i Arbed sy'n ei gwneud yn anodd i gymryd rhan yn y cynllun?

**Darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor**

Gwahoddir pawb sydd â diddordeb i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i Glerc y Pwyllgor Cyllid, yn y cyfeiriad uchod, erbyn **dydd Mawrth, 6 Tachwedd 2012** fan bellaf. Os ydych yn dymuno cyfrannu ond eich bod yn pryderu na allwch wneud hynny erbyn y dyddiad cau, dylech siarad â Chlerc y Pwyllgor ar 02920 898409.

Os yw'n bosibl, anfonwch gopi electronig mewn ffomat MS Word neu Rich Text, drwy e-bost i'r cyfeiriad a ganlyn Pwyllgor.Cyllid@cymru.gov.uk erbyn **Dydd Mawrth 6 Tachwedd 2012**.

**Datgelu Gwybodaeth**

*Dylai tystion fod yn ymwybodol y caiff unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynir i'r Pwyllgor ei thrin fel eiddo'r Pwyllgor.*

*Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg a Saesneg, a gofynnwn i sefydliadau sydd â chynlluniau/bolisïau'r Iaith Gymraeg ddarparu cyflwyniadau dwyieithog, yn unol â'u polisïau ar ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd.*

*Mae'r Pwyllgor yn bwriadu gosod tystiolaeth ysgrifenedig ar ei wefan, ac mae'n bosibl y caiff ei hargraffu gyda'r adroddiad yn dilyn hynny. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth a ystyrir yn ddata personol, ar wahân i farn bersonol a data personol sy'n gysylltiedig â'ch hunaniaeth fel awdur y dystiolaeth, ac ym mha rinwedd, os o gwbl, yr ydych yn darparu'r dystiolaeth (er enghraifft, teitl swydd).*

Fodd bynnag, os ceir cais am wybodaeth (sy'n cynnwys data personol) o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, efallai y bydd angen datgelu gwybodaeth bersonol a ddarperir gennych, yn llwyr neu'n rhannol. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a ddilëwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi (fel y disgrifir yn y paragraff uchod).

*Os byddwch yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, neu os nad ydych am i'ch hunaniaeth fel awdur y dystiolaeth gael ei datgelu, dylid nodi hyn yn glir, a'ch penderfyniad chi yw nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a rhoi dadl resymol dros hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.*

Mae rhagor o wybodaeth am y Pwyllgor Cyllid a'i gais am wybodaeth ar gael yn: www.cynulliadcymru.org

Yn gywir

**Jocelyn Davies**
**Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid**

**Atodiad 1:**

**Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Addysg Lleol**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cyngor Sir Caerdydd
Cyngor Sir Gaerfyrddin
Cyngor Sir Ceredigion
Dinas a Sir Abertawe
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Gwynedd
Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Cyngor Sir Fynwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Dinas Casnewydd
Cyngor Sir Benfro
Cyngor Sir Powys
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen
Cyngor Bro Morgannwg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

**Byrddau Iechyd Lleol**
Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro
Ymddiriedolaeth GIG Cwm Taf
Ymddiriedolaeth GIG Hywel Dda
BILl Addysgu Powys
Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru Gyfan
Cydffederasiwn y GIG yng Nghymru

**Cyffredinol**

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Cyngor Gofal Cymru
Comisiynydd Plant Cymru
Comisiynydd Pobl Hŷ n Cymru
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
Yr Ymddiriedolaeth Garbon a'r
Ymddiriedolaeth Arbed Ynni
Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

**Prifysgolion**
Prifysgol Aberystwyth
Prifysgol Abertawe
Prifysgol Morgannwg
Prifysgol Bangor
Prifysgol Caerdydd
Prifysgol Casnewydd
Prifysgol Fetropolitan Caerdydd
Prifysgol Fetropolitan Abertawe
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Prifysgol Glyndŵr
Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru

**Colegau Addysg Bellach**
**De Ddwyrain Cymru**
Coleg y Barri
Coleg Pen-y-Bont ar Ogwr
Coleg Morgannwg
Coleg Gwent
Coleg Merthyr Tudful
Coleg Ystrad Mynach
**De a Gorllewin Cymru**
Coleg Sir Gâr
Coleg Castedd-nedd Port Talbot
Coleg Sir Benfro
Coleg Abertawe
**Canolbarth Cymru**
Coleg Ceredigion
Coleg Powys
**Gogledd Cymru**
Coleg Harlech
Coleg Llandrillo Cymru
Coleg Menai
Coleg Glannau Dyfrdwy
Coleg Iâl, Wrecsam